

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 19eg Chwefror 2020 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A.S. Johnson, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine B. Mellor, Ms V. Roberts, Miss S. Roberts, A.J. Rutherford a Miss C.L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Hefyd yn bresennol

Y Cynghorydd P. Prendergast (Sylwedydd)

44. YMDDIHEURIADAU

Ni gyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

45. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

[Datganodd y Cynghorydd Ms J. McAlpine ei buddiant personol a rhagfarnus yng Nghais Rhif 45/2020/0044 a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais]

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO

45.1 **LLEOLIAD Y SAFLE**: Kynsal House, Vale Road, y Rhyl

WARD: Pendyffryn

CYNGHORWYR Y WARD: Mrs. D.L. King
A.J. Rutherford

RHIF Y CAIS: 45/2020/0007

DISGRIFIAD: Adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a wal derfyn ar ffin y safle.

YMGEISWYR: Mr. Philip Purcell o'r cyfeiriad uchod

PENDERFYNIAD: Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol:

Deallir mai'r bwriad yn y pen draw ar gyfer y safle yw ar gyfer carafanau

	<p><i>sefydlog (nid yw'n hysbysu os bydd rhywun yn byw ynddynt, os ydynt yn cael eu storio neu eu cynnal a'u cadw ar y safle)</i></p> <p><i>Bydd mynediad i'r safle, mae'n debyg, drwy Knowsley Avenue y mae'r Cyngor Tref yn ei ystyried yn anaddas ar gyfer defnydd o'r fath oherwydd ei gynllun a'r effaith negyddol ar fwynderau preswyl trigolion eraill. Ystyria'r Cyngor Tref bod hyn yn groes i bolisi RD1 (vi) y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd</i></p> <p><i>Ystyrir hefyd bod defnyddio Knowsley Avenue i fynd i'r safle i gludo carafanau sefydlog yn anaddas ac yn groes i Bolisi RD1 (viii) y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd</i></p> <p><i>DS Mae'r Cyngor yn nodi, er gwaethaf ymateb yr ymgeisydd i gwestiynau 4, 6 a 7 ar y ffurflen gais, ei bod yn ymddangos bod gwaith wedi cychwyn ar y safle gan fod</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>- coed wedi eu tynnu ar hyd ffin y safle gyda Knowsley Avenue gan gynnwys coed sy'n ymddangos eu bod y tu allan i safle'r cais ar dir cyhoeddus.</i> <i>- bod cyrbau isel wedi eu gosod</i> <i>- mae wyneb caled wedi ei osod ar y safle.</i> <p><i>Mae'r Cyngor Tref hefyd yn bryderus bod y safle efallai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer lletya yn y carafanau sefydlog heb ganiatâd cynllunio gofynnol a byddai'n gofyn bod archwiliad priodol yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir i weld os oes tor-rheol wedi digwydd</i></p>
45.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE</u> Marina Quay Uned 5 Ffordd Wellington, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Foryd</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Butterfield A.R. James</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2020/0044</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu ffens i amgau ardal i greu canolfan arddio awyr agored ategol. Newid y fynedfa a gwaith cysylltiedig</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> SDG (Rhyl) Ltd, Europa House, 20 Esplanade Scarborough</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
45.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 14 Grange Avenue, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Tynewydd</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> B. Blakeley B. Jones Miss C.L. Williams</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2020/0061</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniadau i dŷ annedd</p>

	<p><u>YMGEISWYR:</u> Mr. C. Walkden a Miss J. Bukstel-Halgate o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
45.4	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 23 Gwenarth Drive, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard Miss S. Roberts</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2020/0062</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniadau i dŷ annedd, ffurfio wyneb caled a lledu'r fynedfa bresennol</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mr. Lee Wright o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>

46. **POLISI CYNLLUNIO**

Mynegodd aelod bryderon bod syniad cyffredinol yn cael ei fynegi ymhlith trigolion y Rhyl bod ceisiadau i ddatblygu yn y Rhyl yn cael ei caniatáu yn y Rhyl na fyddent yn cael eu cymeradwyo pe byddent yn cael eu cyflwyno mewn ardaloedd eraill yn y sir – yr awgrym oedd bod cymerwyr penderfyniadau yn fwy tebygol o ganiatau ceisiadau llai dymunol yn y Rhyl na mannau eraill a bod hyn yn andwyol i'r ymdrechion cyffredinol gan y Cyngorau Tref a Sirol i godi proffil y dref.

PENDERFYNWYD *cyflwyno'r adborth i adran gynllunio'r Cyngor Sir.*

47. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: